**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig** **ARD 03-02(min)**

**Cofnodion**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 6 Chwefror 2002

**Amser:** 2.00pm hyd 4.50pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, Cadeirydd | Canol a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Delyth Evans | Canol a Gorllewin Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Elin Jones | Ceredigion |
| *Ymddiheuriadau* | |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| *Yn bresennol* | |
| Patrick Sullivan (eitem 4) | Awdurdod Datblygu Cymru |
| Robin Beckmann (eitem 4) | ELWa |
| Kim Colebrook (eitem 4) | Bwrdd Croeso Cymru |
| *Swyddogion (eitem 2)* | |
| Rory O’Sullivan | Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd |
| Mike Dunn | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Simon Hewitt | Y Comisiwn Coedwigaeth |
| Jim Norrie | Yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid |
| Huw Jones | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Menna Williams | Cynorthwy-ydd Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, cyfnewidiadau a datganiadau o fudd**

1.1 Datganodd y Cadeirydd a Mick Bates fod iddynt fudd fel partneriaid mewn busnesau ffermio.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Carwyn Jones, Peter Rogers a Janet Ryder.

1.3 Mewn ymateb i gais gan yr Aelodau yn y cyfarfod blaenorol, amlinellodd y Cadeirydd sut y gallai'r Pwyllgor chwarae mwy o ran yn y gwaith o archwilio offerynnau statudol (OS). Cynigodd:

- Y dylai'r arfer presennol o dderbyn adroddiad misol am offerynnau statudol (OS) a fyddai'n dod i rym barhau;

- Y dylai'r testun sy'n disgrifio bwriad pob deddfwriaeth gael ei ymestyn; ac

- Y dylai'r adroddiad nodi i ba raddau y gallai'r Cynulliad gyflwyno polisi gydag agwedd Gymreig o fewn pob Gorchymyn.

1.4 Cefnogodd y Pwyllgor y cynnig. Anogodd y Cadeirydd yr Aelodau i ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperid er mwyn nodi pa OS a meysydd polisi y dymunent eu hystyried yn fanylach a chytunodd i chwarae rhan arweiniol yn y gwaith hwn.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog** - ARD 03-02(p1)

*Antur Cig Cymru (ACC)*

2.1 Yn sgil pryderon a fynegwyd gan Hybu Cig Oen ac Eidion o Gymru yn ymwneud ag amseriad y cyhoeddiad ynghylch ACC, gofynnodd yr Aelodau i'r Dirprwy Weinidog sicrhau bod y broses ymgynghori gyfredol yn wirioneddol gynhwysol.

2.2 Mynegwyd pryder gan yr Aelodau gan nad oeddent yn sicr a fyddai'r cynnig yn llwyddo i gyflawni ei nod o ddod â gweithgareddau hybu a marchnata'r sector cig coch at ei gilydd gan ei fod yn creu corff arall (ACC) yn ychwanegol at y tri a oedd eisoes yn ymwneud â'r gwaith. Nododd y Pwyllgor mai bwriad y cynigion oedd sicrhau bod llai o waith yn cael ei ddyblygu (er enghraifft, byddai Bwrdd ACC yn ymgymryd â gwaith Cyngor Cymreig y Comisiwn Cig a Da Byw a gwaith Grwp Strategaeth Cig Oen ac Eidion y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth).

2.3 Yr oedd yr Aelodau'n poeni y byddai ffurfio ACC yn tanseilio bodolaeth Hybu Cig Oen ac Eidion o Gymru gan nad oedd yn amlwg pa rôl y byddai'r corff hwnnw'n ei chwarae yn y dyfodol. Yr oedd yn bwysig bod unrhyw strwythur newydd yn ddynamig yn hytrach nag yn fiwrocratig, ac nad oedd cryfder

Hybu Cig Oen ac Eidion o Gymru fel menter gydweithredol yn cael ei golli.

2.4 Ailfynegodd y Cadeirydd y pwynt a wnaeth yn y cyfarfod blaenorol, sef bod amseriad y broses ymgynghorol, ynghyd ag ymrwymiad y Pwyllgor i ddau sesiwn archwilio clwy'r traed a'r genau, yn golygu mai dyma'r unig gyfle oedd gan y Pwyllgor i drafod y cynnig a oedd yn ymwneud â'r ACC. Mynegodd yr Aelodau eu hanfodlonrwydd â'r trefniant hwn. Teimlent y dylai'r pwnc gael ei gynnwys fel eitem o bwys ar yr agenda yn y dyfodol ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog dros Faterion Gwledig i ofyn iddo beidio â dod i gasgliad ynghylch ACC hyd nes y byddai'r Pwyllgor wedi trafod y mater yn llawn.

*Y Comisiwn Polisi ar ddyfodol ffermio yn Lloegr*

2.5 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw drafodaethau rhwng Llywodraeth y Cynulliad yng Nghymru ac awduron yr adroddiad. Yr oedd adroddiad y Comisiwn wedi ei gyfeirio at y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac yr oedd y rhan fwyaf o'i argymhellion yn ymwneud â Lloegr yn unig. Yr oedd yr argymhelliad y dylid codi'r ganran fodiwleiddio cymorthdaliadau cynhyrchu i 10% o 2004 ymlaen yn galw ar Lywodraeth y DU i symud ymlaen ar y cyd â'r gweinyddiaethau datganoledig. Nododd y Pwyllgor fod y Comisiwn Polisi yn argymell modiwleiddio gydag arian cyfatebol llawn gan y Trysorlys. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod modiwleiddio'n debygol o fod yn rhan o'r trafodaethau rhwng pedwar Gweinidog Amaeth y DU ar yr adolygiad tymor canolig o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

*Ymweliad gan yr Arglwydd Whitty*

2.6 Nododd y Pwyllgor fod yr Arglwydd Whitty wedi ei wahodd i ymweld â Chymru er mwyn cael golwg ar natur arbennig amaethyddiaeth Cymru. O safbwynt cyhoeddiad yr Arglwydd Whitty ynghylch ailagor marchnadoedd anifeiliaid, nododd y Pwyllgor y byddai ffermwyr yn cael mynd i farchnadoedd ond y byddai'n rhaid iddynt gydymffurfio â chamau bio-ddiogelwch arbennig. Teimlai rhai o'r Aelodau y dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau nad oedd gofynion a oedd yn ymwneud â bio-ddiogelwch yn gwneud y gwaith o ailagor marchnadoedd yn anymarferol. Pwysleisiodd eraill pa mor bwysig oedd sicrhau'r lefelau bio-ddiogelwch gorau posib er mwyn atal clwy'r traed a'r genau rhag taro eto. Cytunodd y Dirprwy Weinidog i anfon manylion ynghylch y camau bio-ddiogelwch y byddai eu hangen at aelodau'r Pwyllgor. Nododd y Pwyllgor hefyd y byddai canllawiau i bobl sy'n trefnu sioeau yn cael eu cyhoeddi mewn rhifyn arbennig o *Gwlad*.

*Mewnforio cig yn anghyfreithlon – cosbau*

2.7 Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu manylion ynghylch faint o bobl gafodd eu herlyn yng Nghymru am geisio mewnforio cynnyrch cig yn anghyfreithlon. Nodwyd na fyddai ffigyrau o'r fath yn golygu dim yng nghyswllt gorfodaeth gyffredinol cyfyngiadau mewnforio ym mhob rhan o'r DU. Yr oedd y rhan fwyaf o'r bwydydd a oedd yn dod i Gymru wedi eu mewnforio i rannau eraill o'r DU, ac nid oedd deunydd a oedd yn cael ei fewnforio o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE yn cael eu harchwilio

yn y porthladdoedd. Cytunodd y Cadeirydd i ystyried cynnig y dylid gwahodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Tollau Tramor a Chartref ei Mawrhydi, yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac adrannau perthnasol eraill i roi anerchiad i'r Pwyllgor yn trafod y camau a oedd yn cael eu cymryd er mwyn atal mewnforio cynhyrchion cig yn anghyfreithlon.

*Grwp Strategaeth Datblygu Coedwigoedd a Bio-màs*

2.8 Nododd y Pwyllgor y byddai cyd-drefnu arian strwythurol mewn perthynas â bio-màs yn cael ei drafod gan bob un o'r is-grwpiau a sefydlwyd yng nghyfarfod cyntaf y Grwp Strategaeth Datblygu Coedwigoedd a Bio-màs.

*Gwenwyno bywyd gwyllt*

2.9 Mynegwyd rhywfaint o bryder ynghylch cywirdeb y ffigyrau a ddarparwyd yn Adroddiad y Gweinidog ar y nifer o achosion o wenwyno hebogiaid tramor, yn enwedig y nifer isel a gofnodwyd yn 2001. Nododd yr Aelodau fod y ffigyrau wedi eu gwirio a'u bod yn dangos cyfanswm yr achosion honedig o wenwyno bywyd gwyllt y rhoddwyd gwybod amdanynt i Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad; bod nifer o achosion eraill yn cyfrannu tuag at gyfran uchel y nythod hebogiaid tramor yr aflonyddid arnynt; a bod cyfyngiadau clwy'r traed a'r genau wedi amharu cryn dipyn ar y gwaith o gasglu data yn 2001.

*Rheoliadau ar gyfer Asesiadau o Effaith ar yr Amgylchedd*

2.10 Os byddai amser yn caniatáu, nododd y Cadeirydd ei fod yn gobeithio y byddai'r Pwyllgor yn cael cyfle i drafod y *Rheoliadau arfaethedig ar gyfer Asesiadau o Effaith ar yr Amgylchedd (Tir heb ei drin ac ardaloedd lled-naturiol) (Cymru)*.

*Clwy'r Traed a'r Genau*

2.11 Holwyd y Cadeirydd beth oedd y cysylltiad rhwng archwiliad y Pwyllgor o'r modd yr ymdriniodd y Gweinidog â chlwy'r traed a'r genau yng Nghymru ac ymchwiliadau eraill i'r clwy a oedd yn cael eu gwneud gan Senedd Ewrop ac yn y DU. Dywedodd y Cadeirydd fod gan y Pwyllgor hawl i ymwneud â'r ymarferion hyn fel y gwelai'r Aelodau orau.

**Camau Gweithredu**

Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Faterion Gwledig, ar ran y Pwyllgor, a gofyn iddo beidio â gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch Antur Cig Cymru hyd nes y byddai'r Pwyllgor wedi cael cyfle i drafod y mater yn fanwl - **Cadeirydd/Ysgrifenyddiaeth**

Canllawiau i ffermwyr yn ymwneud â'r camau bio-ddiogelwch y byddai eu hangen mewn marchnadoedd anifeiliaid i'w hanfon at yr Aelodau - **Gweinidog, Yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid**

Ystadegau yn ymwneud â’r nifer a erlynwyd yng Nghymru am fewnforio cynnyrch cig yn anghyfreithlon i’w hanfon at yr Aelodau – **Y Gweinidog, Yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid**

Ystyried anerchiad yn y dyfodol gan asiantaethau ac adrannau eraill y llywodraeth ynghylch y camau sy’n cael eu cymryd er mwyn atal cig rhag cael ei fewnforio i’r DU yn anghyfreithlon **- Cadeirydd/ Ysgrifenyddiaeth**

Os bydd amser yn caniatáu, y *Rheoliadau ar gyfer Asesiadau o Effaith ar yr Amgylchedd (Tir heb ei drin ac ardaloedd lled-naturiol) (Cymru)* i’w trafod mewn cyfarfod yn y dyfodol – **Ysgrifenyddiaeth/Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**

**Eitem 3: Blaenraglen Waith Strategol**

3.1 Cytunodd y Pwyllgor i ychwanegu Tir Gofal at y rhestr o bynciau ar gyfer ei adolygiadau datblygu polisi.

3.2 Cytunodd yr Aelodau hefyd y dylai’r adolygiad tymor hir o’r Polisi Amaethyddol Cyffredin gael ei drafod cyn gynted ag y byddai’r Comisiwn Ewropeaidd yn cyhoeddi ei gynigion yn yr haf.

3.3 Yn amodol ar y newidiadau hyn, cymeradwyodd y Pwyllgor y rhaglen waith.

**Cam Gweithredu**

Blaenraglen Waith Strategol i’w diwygio er mwyn cynnwys adolygiad o weithrediad y cynllun Tir Gofal a thrafodaeth ar yr adolygiad tymor canolig o’r Polisi Amaethyddol Cyffredin - **Ysgrifenyddiaeth**

**Eitem 4: Adolygiad o TGCh mewn ardaloedd gwledig**

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan Fwrdd Croeso Cymru ar ei ymgyrch *Visit Wales*, a hefyd gan Awdurdod Datblygu Cymru a chan Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa) ar y camau yr oedd y naill a’r llall yn eu cymryd er mwyn cefnogi’r defnydd o TGCh mewn ardaloedd gwledig. Gellir gweld copïau drwy glicio yma.

4.2 Mewn trafodaeth gyda Patrick Sullivan o’r Awdurdod Datblygu:

- Wrth argymell dull gweithredu technoleg-niwtral, yr oedd yn bwysig bod cynlluniau datblygu strategol yn ddigon hyblyg i allu darparu ar gyfer y gwahanol anghenion a’r cymunedau amrywiol a geid yng Nghymru wledig – o fentrau cymunedol gyda lefel gymharol isel i’r TGCh mwyaf datblygedig mewn rhai clystyrau busnes;
- yr oedd cynllun gweithredu TGCh a fyddai’n cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Awdurdod Datblygu y

diwrnod canlynol yn anelu at hyblygrwydd o’r fath ac yn ceisio sicrhau bod y ddarpariaeth band llydan yn cyfateb i gynlluniau’r Awdurdod ac awdurdodau lleol i ddatblygu safleoedd arbennig. Yr oedd hefyd yn ceisio rhoi sylw i gost uchel darparu TGCh mewn ardaloedd gwledig a methiant y farchnad o ganlyniad i hynny;

- Yr oedd posibiliadau darpariaeth drwy loeren yn cael eu harchwilio a gobeithiai Patrick Sullivan, ar yr amod bod modd dod o hyd i’r arian y byddai ei angen, y byddai Cymru’n cymryd rhan mewn cynllun peilot ynghyd â Gogledd Iwerddon, yr Alban a De-orllewin Lloegr.

4.3 Mewn trafodaeth gyda Robin Beckmann, o ELWa:

- Eglurodd fod ELWa’n gobeithio cynnig mynediad i’r rhwydwaith Superjanet y cyfeiriodd ato yn ei gyflwyniad, i ysgolion a chymunedau ym mhob cwr o Gymru. Yr oedd ELWa’n gweld darparu addysg a hyfforddiant TGCh drwy ysgolion fel ffordd dda o ehangu mynediad mewn cymunedau gwledig;

- Er nad oedd ELWa’n darparu cymorth ariannol rhagweithiol i gwmnïau a oedd yn awyddus i gael hyfforddiant TGCh, yr oedd yn darparu rhaglenni hyfforddi a datblygu wedi eu teilwrio. Cytunai Robin Beckmann a Patrick Sullivan fod cost gychwynnol caledwedd yn aml yn atal cymunedau a mentrau bach a chanolig eu maint rhag ymwneud â TGCh a gallai ymyrraeth gyhoeddus helpu i oresgyn hyn;

- Yr oedd y rhaglen e-gymunedau yn ceisio darparu arweiniad a chefnogaeth ym maes TGCh i’r cymunedau mwyaf difreintiedig. Er y byddai’n cyfateb yn fras i’r cymunedau a nodwyd gan y mynegrif amddifadedd lluosog y mae’r rhaglen Rhoi Cymunedau’n Gyntaf yn seiliedig arno, byddai hefyd yn ystyried ffactorau eraill nad ydynt wedi eu cynnwys yn y mynegrif ond sy’n bwysig yng nghyd-destun amddifadedd gwledig.

4.4 Pwysleisiodd Kim Colebrook o’r Bwrdd Croeso pa mor bwysig oedd TGCh fel cyfrwng marchnata ar gyfer y sector twristiaeth. Yr oedd y Bwrdd Croeso’n ceisio helpu’r diwydiant i ddatblygu cyfryngau marchnata integredig a fyddai’n sicrhau bod gwybodaeth am Gymru fel cyrchfan i ymwelwyr yn cael ei chynnig yn gyson i’r rhai a oedd am archebu a threfnu gwyliau drwy gyfrwng cyfrifiadur. Yr oedd y Bwrdd Croeso’n gweithio mewn cysylltiad agos â’r Awdurdod Datblygu ac asiantaethau eraill er mwyn ceisio sicrhau bod y gwasanaethau TGCh sy’n cael eu darparu’n cyfateb i anghenion y sector twristiaeth.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

5.1 Cymeradwywyd Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 23 Ionawr. Byddai manylion ynghylch y cam gweithredu na roddwyd sylw iddo, yn ymwneud â chais G^wyl Jazz Aberhonddu am arian o’r Cynllun Adfywio Gwledig a’r rhesymau dros ei wrthod, yn cael eu darparu cyn gynted ag y byddai modd.